

2021
2020

**Casgliad Llinell Amser
LHDTQ+ Cymru**



2018

2017

2016

2015

RHIFYN GWENT



Casgliad Llinell Amser LHDTC+ Cymru

CYFLWYNIAD

Yn 2021 comisiynodd Llywodraeth Cymru hyfforddiant mewn *laith a Hanes* LHDTC+ ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau lleol er mwyn annog dathlu straeon lleol am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd.

Dyma ran o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o boblogaeth amrywiol Cymru gan ganmol Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru sy'n anelu at

- fynd i'r afael ag anghydraddoldebau y mae'r cymunedau LHDTC+ yn eu hwynebu
- herio gwahaniaethu

- creu cymdeithas ble mae pobl LHDTC+ yn ddiogel a ble gallan nhw fyw a charu'n ddilys, agored a rhydd fel nhw eu hunain.

Roedd yr hyfforddiant yn effeithiol iawn. Roedd yr hyfforddiant yn cynnig pwyntiau dysgu effeithiol ac yn cyflwyno adnoddau ymarferol i alluogi staff a gwirfoddolwyr i symud ymlaen gyda rhaglen gwbl gynhwysol gan arwain at ehangu y tu hwnt i'r sefydliad at y cyhoedd, megis haneswyr teulu, haneswyr lleol a grwpiau cymunedol; yn caniatáu hyrwyddo deunydd hanesyddol mewn ffyrdd nas gwiredddwyd o'r blaen a gwella gwaith gyda sefydliadau partner, nid yn unig o ran gwneud deunydd LHDTC+ yn hygyrch i'r cyhoedd, ond hefyd wrth gasglu a diogelu'r dreftadaeth hon.

Un o'r pethau sydd wedi deillio o'r hyfforddiant laith a Hanes LGBTQ+ yw'r gwaith o greu amserlenni ar gyfer pob un o'r 22 sir yng Nghymru. Mae hyn yn creu modd i ddathlu pobl, cynghreiriaid a digwyddiadau lleol yn hytrach na gorfod efelychu naratifau prif ffrwd ac enwogion.

Crëwyd llinell sylfaenol o ran momentau pwysig gan Norena Shopland o'i chasgliad o ddeunydd hanesyddol Cymreig ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd, ac o hynny cyfrannodd at Grŵp Ymchwil LHDT+ Cymru / LGBTQ+ Research Group Wales a sefydlwyd i annog a hyrwyddo ymchwil i hanes LHDTC+ Cymru. Mae eu gwefan, LGBTQ Cymru yn cael ei hariannu gan Brifysgol Abertawe i gofnodi cymaint o wybodaeth â phosib am yr hanes yma.

<https://lgbtqcymru.swansea.ac.uk/>



Mae gan bob llinell amser sirol gynhaliwr penodol a fydd yn annog dathlu pobl leol, cynghreiriaid a digwyddiadau yn ystod cyfnodau dathlu trwy gydol y flwyddyn. Mae pobl yn cael eu hannog i ychwanegu at a pharhau i ehangu'r llinellau amser er mwyn eu gwneud mor gynhwysfawr â phosibl.

RHIFYN GWENT

Cynhelir y rhifyn hwn ar gyfer Gwent gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac mae Ceri Harris, yr Arbenigwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi ychwanegu ato.

Rydyn ni wedi gwahodd aelodau'r Cynghorau Balch yng Ngwent i ymuno gyda dathlu'r llinell amser a gwahodd y cyhoedd i ychwanegu i'r llinell amser.



14EG GANRIF

1326

Mae'r Brenin Edward II, a aned yng Nghaernarfon, yn cael ei ddiosseddu gan ei wraig y Frenhines Isabella. Mae Edward yn ffoi i Gaerffili gyda Hugh Despenser, Arglwydd Morgannwg. Credid mai cariadon oedd Hugh ac Edward, a chawsant loches oddi wrth fyddin y frenhines yng Nghastell Caerffili. Yn y pen draw cawsant eu harestio yng Nghastell-nedd, a gorfodwyd Edward i ymwrthod. Cyhuddwyd Hugh o frad ac ymyrryd yn y briodas frenhinol. Fe'i crogwyd, ei gastio, ei dynnu, a'i chwarteru.



19EG GANRIF

1803

Ganed Otavius Morgan (1803–1888) ym Mharc Tredegar, Sir Fynwy ac fe'i cydnabyddir yn un o hynafiaethau pwysicaf Cymru. Bu'n eistedd fel AS Sir Fynwy rhwng 1841 a 1874 i'r Ceidwadwyr. Mewn gwaith o'r enw *Memories of Monmouthshire* a briodolir yn gyffredinol i Reginald James Blewitt sylfaenydd y papur newydd y *Monmouthshire Merlin* ac un o gyd-Aelodau Seneddol Morgan yn Sir Fynwy, fe'i disgrifir mewn modd sy'n annog y darllenwr i gwestiynu ei rywioldeb:

"Roedd Mr Octavius Morgan fel dyn ifanc yn falch, yn anystyriol ac yn hunanfodlon. Fel y Morganiaid, roedd yn fychan o ran taldra, o ran pryd a gwedd roedd yn welw a didaro a braidd yn ferchetaidd. Er y gallai sgwrsio'n huawdl ar y rhan fwyaf o bynciau, roedd ei lais yn wichlyd. Traddododd ei farn mewn modd dogmatig, gorfoleddus a ffroenuchel ... Ef oedd y cyntaf i godi yn y bore a goruchwylio'r trefniadau'r cartref ei hun. Gwae i'r troedmon diog neu'r forwyn araf a oedd yn hwyr ar gyfer gwaith y dydd. Roedd yn gwneud yn siŵr fod y ceffylau a'r gwartheg yn cael y sylw priodol ac yn cael eu bwydo a byddai'n bwydo'r ieir ei hun. Byddai'n gwneud y te ar gyfer brecwast ei rieni, gan ledaenu mêl a menyn ar y tost sych i'r merched ifanc, a byddai'n gwneud copïau o'r fwydlen ar gyfer swper, yn cynorthwyo'r bwtler i arllwys ac oeri'r gwinoedd. Cyfaddefodd ceidwad y tŷ ei fod 'yn eithaf cartrefol mewn syllabub, ac yn ogoneddus mewn treiffl'. Cafodd melysion lu, wedi'u haddurno gydag arian a chynlluniau clyfar o bast almon a siwgr haidd eu dylunio a'u creu ganddo. Yn y gegin roedd yr holl gawliau, sawsiau, stiwiau a'r cyris yn gorfod cael ei gymeradwyaeth gysetlyd, creodd entree newydd ac fe'i mabwysiadwyd fel pryd teuluol rheolaidd ac fe'i galwyd yn 'Cervelles de veaude la

mode de Tredegar' ... Nid oedd yn malio dim am chwaraeon a gweithgareddau gwrywol eraill o'r fath, byddai'n hamddena yn yr yr ystafell groeso, yn darllen tudalen neu ddwy o'r nofel ddiweddaraf, yn helpu i ddad-bwytho cengl o sidan neu'n sibwrdd geiriau serch yng nghlust rhyw Desdemona ddiamynedd nad oedd erioed wedi dymuno "i'r nefoedd ei gwneud hi'n ddyn o'r fath". Gyda'r nos byddai'n cynnwys y canhwylau gwely ar gyfer y merched ac yn rhoi papurau cyrllo iddynt. Rwy'n grediniol, pe byddai wedi cynnig cynorthwyo ymwelydd ieuengaf a phrydferthaf Tredegar yn y tŷ bach gyda'r nos, y byddai hyd yn oed y fam fwyaf diwyd wedi dweud 'paid â phoeni cariad, dim ond Octavius yw e!'."

Anhysbys, *Memories of Monmouthshire*, dyddiad anhysbys, 1860s o bosib

Nid oes unrhyw sylwebaeth arall yn bodoli ar rywioldeb Morgan ac felly mae'n rhaid bod yn ofalus wrth ddibynnu ar air un dyn yn unig. .



1847

Morwr benywaidd

Cyhuddwyd dynes yn swyddfa heddlu Casnewydd, Sir Fynwy, o gerdded o gwmpas mewn gwisg wryw. Roedd y diffynnydd, a oedd yn gwisgo dillad morwr, o ran ei hymddangosiad, ei hosgo a'i hystumiau, yn forwr bob tamaid; ac o ran ei hymddygiad beiddgar roedd yn gwbl wahanol i'r morwr tawel, ei gŵr, a safai wrth ei hymyl. Ymddengys, am ddim llai na deng mlynedd, ei bod wedi wfftio ei dillad arferol ac wedi ymroi i waith caled, diddiwedd. Mewn gwahanol swyddi, hwyliodd i Quebec, Bombay, a phellafoedd eraill, byth yn dianc rhag ei dyletswyddau, ond yn hytrach, yn llwytho a dadlwytho'r cargo gyda'r criw. Ar un achlysur, dywedir, iddi gario dim llai na 70 sach o flawd rhwng y llong a'r sir mewn un diwrnod; tra bo hi wrth y winsh doedd ei dewrder byth yn pylu a doedd ei chryfder byth yn methu. Yn ystod dwy o'r deng mlynedd dan sylw, fodd bynnag, gwnaeth ychydig o waith ar y tir, gan weithio fel labrwr ar y rheilffordd i Gaerwysg. Eto i gyd, ni chwestiynwyd ei rhyw. Ei mordaith olaf oedd o Truro, yn forwr abl 21 5s y mis. Cyrhaeddodd Gasnewydd ychydig yn ôl, ond daeth ei rhyw i'r amlwg rhyw fodd; ac, wrth iddi barhau i aros yma a gwisgo fel yr arfer, roedd yn well gan ringyll heddlu'r doc y cyhuddiad. Dywedodd y diffynnydd iddi briodi ar y 12fed o Orffennaf y llynedd, a'i bod wedi'i chludo fel cogydd a stiward o Truro tua thri mis yn ôl, er mwyn cefnogi ei gŵr, a oedd wedi cwrdd ag anffawd. Cafodd y ddynes ei rhyddhau, a gadawodd y llys, gydag amddiffyniad omnibws, fodd bynnag, i atal tyrfa rhag heidio o'i hamgylch."

Ffynhonnell: *The Era*, 23 May 1847


1855

Morwr benywaidd arall

Aethpwyd â merch ifanc, wedi ei gwisgo mewn dillad morwyr, i dŷ'r orsaf, am fod yn feddw ac yn anhrefnus. Ar y diwrnod canlynol aethpwyd â hi gerbron yr ynadon. Ei henw yw Susan Brunin, o Gasnewydd. Roedd hi wedi bod ar y môr am dri mis, ac wedi pasio am forwr abl. Roedd capten llong, yn Nociau Caerdydd, hefyd yn ei chyflogi, ac mewn gwirionedd yn talu mis iddi ymlaen llaw, ond ar ôl canfod ei fod wedi cyflogi merch, gwrthododd gadw ei gytundeb. Ceryddodd yr ynadon y carcharor, a'i chynghori i ddychwelyd i'w chartref, a mabwysiadu modd mwy gweddus o fyw. Yna cafodd ei rhyddhau.

Ffynhonnell: *Monmouthshire Merlin*, 18 Awst 1855

Roedd miloedd o 'forwyr benywaidd' a 'milwyr benywaidd' drwy gydol hanes. Roedd y rhai a oedd yn byw fel dynion yn aml yn gwneud hynny am ddegawdau ac yn gwasanaethu ar fwrdd llongau ac mewn catrodau milwrol. Daeth rhai ohonynt yn adnabyddus iawn, megis Hannah Snell.



1861 – Diddymwyd y gosb eithaf am wrywgydiaeth pan ddisodlwyd y Ddeddf Troseddau yn erbyn y Person 1828gan y Ddeddf Troseddau yn erbyn y Person 1861. Roedd cyfanswm o 8921 o ddynion wedi cael eu herlyn ers 1806 am wrywgydiaeth, 404 ohonynt wedi'u dedfrydu i farwolaeth a 56 wedi'u dienyddio. Roedd cyfunrwyoldeb yn dal yn anghyfreithlon hyd at 1967 yng Nghymru a Lloegr a 1980 yn yr Alban.

1885 – Daeth Senedd Prydain a Deddf Diwygio Cyfraith Droseddol 1885 i rym. Roedd adran 11 o'r ddeddf, a elwir yn Welliant Labouchere, yn gwahardd anwedduster difrifol rhwng dynion. Felly, daeth yn bosib erlyn cyfunrwyolion am gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol lle nad oedd modd profi gwrywgydio (*buggery*) na cheisio gwrywgydio.

1895 – Cafodd Oscar Wilde, a fu'n gorfod sefyll ei brawf am anwedduster difrifol dros berthynas gyda'r Arglwydd Alfred Douglas, ei ddedfrydu i ddwy flynedd yn y carchar gyda llafur caled.

20FED GANRIF

1900

Ymdd-
angosodd
Bessie

Bonehill (1855–1902), sy'n enwog ledled y byd fel 'dynwardwr gwrywaidd' yn y Newport Empire.

Ffynhonnell:
Western Mail, 19
Chwefror 1900



1907

Ganwyd Trevor Thomas yn Ynsddu, Gwent. Ef oedd y Ceidwad ieuengaf yn Amgueddfeydd Lerpwl. Ym mis Gorffennaf 1946, daeth ei yrfa i ben yn sydyn wedi iddo ymddangos yn y llys wedi'i gyhuddo o drosedd anwedus gyhoeddus. Yn ddiweddarach bu'n gweithio i'r Ymgyrch dros Gydraddoldeb Cyfunrywiol.

1929

Ganwyd yr actor ac awdur Cymreig Vittorio Giorgio Andre "Victor" Spinetti (1929-2012) yng Nghwm, Blaenau Gwent. Roedd Spinetti'n byw gyda'i bartner o ddeugain mlynedd, Graham Curnow. Cafodd Spinetti ei addysg yn Ysgol Trefynwy.

1914 – Dechrueodd y Rhyfel Byd Cyntaf ym mis Awst 1914. Ysgrifennodd hanesydd y fyddin, A.D. Harvey, "rhoddwyd o leiaf 230 o filwyr gerbron Llys Milwrol a'u cael yn euog a'u dedfrydu i gyfnod o garchar am droseddau cyfunrywiol" yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

1921 – Diwygiwyd y Ddeddf Diwygio Cyfraith Droseddol yn Nhŷ'r Cyffredin i gynnwys adran sy'n gwneud "gweithredoedd o anwedduster difrifol" rhywiol rhwng menywod yn anghyfreithlon. Pasiwyd y Ddeddf gan Dŷ'r Cyffredin, ond fe'i gorchfygwyd gan Dŷ'r Arglwyddi.

1946

Ganwyd Janet Paraskeva yng Nghasnewydd ar y 28ain o Fai. Caiff ei phenodi'n Swyddog gyda Llywodraeth Prydain ac roedd yn gweithio'n helaeth ar faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc. Bu hefyd yn Gadeirydd yr Olympic Lottery Distributor newydd a oedd yn gyfrifol am lwyfannu Gemau Olympaidd yr Haf a Gemau Paralympaidd Llundain 2012. Mae Paraskeva wedi bod yn eiriolwr cryf dros hawliau hoyw a lesbiaidd ac mae'n yn byw gyda'i phartner Mary.

Ffynhonnell: Wikipedia

1954 – Alan Turing, mathemategydd o Loegr, rhesymegwr, cryptanalyst a gwyddonydd cyfrifiadurol, dylanwadol yn natblygiad cyfrifiadureg, yn cyflawni hunanladdiad. Dewisodd dderbyn cwrs o hormonau benywaidd (sbaddu cemegol) gan feddygon yn hytrach na mynd i'r carchar ar ôl cael ei erlyn gan yr heddlu oherwydd ei gyfunrywioldeb. Ffurir Pwyllgor Wolfenden. Pan ddaw i ben yn 1957 mae'n argymhell y dylid dadgrimineiddio, i raddau, gyfunrywioldeb gwrywaidd. Pan ddaw i'r amlwg nad yw'r argymhellion yma'n cael eu dilyn gan y llywodraeth caiff y Gymdeithas Diwygio Cyfraith Gyfunrywiol ei ffurfio er mwyn ymgyrchu dros droi'r argymhellion yn ddeddfwriaeth.

1945 – Yr Ail Ryfel Byd yn dod i ben. Yn dilyn y rhyfel, newidiodd agweddau moesol at gyfunrywioldeb.

1946 – Mae Michael Dillon yn cael un o'r llawdriniaethau ailbennu rhyw cyntaf, o fod yn fenyw i fod yn wryw.

1951 – Roberta Cowell, cyn-beilot Spitfire o'r Ail Ryfel Byd, yw'r fenyw drawsryweddol gyntaf i gael llawdriniaeth gwryw i fenyw.



1958

Margaret Haig Thomas, 2il Is-iarlles Rhondda yn marw ar y 20fed o Orffennaf. Roedd hi'n arglwyddes, yn wraig fusnes ac yn swffragét gweithgar o Gymru a oedd yn allweddol yn hanes y bleidlais i fenywod yn y Deyrnas Unedig. Cafodd ei magu yn Nhŷ Llanwern, ger Casnewydd, nes iddi adael am ysgol fonedd pan oedd yn 13 oed. Priododd dirfeddiannwr o Gasnewydd, Humphrey Mackworth yn 1908 pan oedd hi'n 25 oed, ond daeth y briodas i ben ac aeth ymlaen i gael perthnasoedd arwyddocaol gyda merched. Fel rhan o'r ymgyrch dros bleidlais i fenywod ceisiodd chwythu blwch llythyrau'r Post Brenhinol yn Heol Rhisga, Casnewydd yn 1913 gyda bom cemegol.

1967 – Deng mlynedd ar ôl Adroddiad Wolfenden, cyflwynodd AS Caerdydd, Leo Abse, y Bil Troseddau Rhywiol 1967 ac fe'i cefnogwyd gan yr AS Llafur Roy Jenkins, Ysgrifennydd Cartref Llafur ar y pryd.

1970 – Sefydlwyd Gay Liberation Front (GLF).

1974 – AS Llafur Maureen Colquhoun yn dod allan fel yr AS lesbiaidd cyntaf.

1977

Y Proffesiwn dysgu'n cael ei feirniadu gan lywodraethwr ysgol yng Ngwent

Mynegodd aelod o gyngor bwrdeistref Casnewydd, y Cynghorydd Mrs Brydon ei phryder am y system addysg yn ystod y pum mlynedd yr oedd hi wedi bod yn llywodraethwr. 'Wrth i fy ngwybodaeth dyfu ... mae fy mhryder wedi cynyddu hefyd,' meddai. Mae'n adrodd un syniad cywilyddus ac anghywir ar ôl y llall am bobl gyfunrywiol, 'Mae gennym aelodau o'r proffesiwn addysgu sy'n gefnogwyr brwd dros sefydliadau megis y Campaign for Homosexual Equality a sefydliadau sydd o blaid cael rhyw gyda phlant. Mae'n anffodus fod canran fechan o athrawon yn cael gwneud datganiadau sy'n cefnogi'r syniadau gwallgof yma, a hwythau'n athrawon. Dylai'r mwyafrif o athrawon fynd ati i ddatgysylltu eu hunain oddi wrth bobl o'r fath sy'n dwyn anfrif ar y proffesiwn addysgu. Dylai rhieni allu gofyn yn yr ysgol a yw athro'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r sefydliadau yma. Rwy'n siŵr y byddai llawer o rieni yn gwrthwynebu pe baent yn gwybod bod eu plant yn cael eu dysgu gan bobl sydd o blaid gweithgareddau cyfunrywiol a chyfreithloni rhyw gyda phlant ifanc. Nid sbel yn ôl, bu'n rhaid i mi holi mewn cyfarfod Llywodraethwyr a oedd y Campaign for Homosexual Equality wedi gwneud cais i ymweld ag ysgolion Casnewydd. Cefais ateb cadarnhaol iawn gan y prifathro. Ond faint o lywodraethwyr fyddai'n ystyried gofyn cwestiynau am hyn?'

Ffynhonnell: *South Wales Argus*, 20 Medi 1977

gwybodaeth am addysg ryw i ysgolion. Roedd y pwnc wedi cael ei drafod yn y gorffennol mewn cyfarfod o'r is-bwyllgor polisi addysg oedd yn argymhell gwrthod y cais.

Cymeradwyodd cyfarfod llawn y pwyllgor addysg yr argymhelliad heb drafodaeth.

Ffynhonnell: *Free Press of Monmouthshire*, 15 Ebrill 1977

1981

GAnwyd Gareth David-Lloyd, actor ac awdur Cymreig ar 28 Mawrth yn y Betws, Casnewydd. Mae'n fwyaf adnabyddus am ei rôl fel Ianto Jones, a oedd yn ddeurywiol, yn y gyfres ffuglen wyddonol *Torchwood*.



Cysegr Ianto ym Mae Caerdydd

Gwent yn gwahardd llenyddiaeth "hoi"

Gwrthododd pwyllgor addysg Gwent gais gan gangen Casnewydd o'r Categori for Homosexual Equality i gael dosbarthu

1982 – Y Cymro Terry Higgins yn marw o AIDS yn Ysbyty St Thomas, Llundain. Sefydlodd ei bartner Rupert Whitaker a'i ffrind Martyn Butler Ymddiriedolaeth Terry Higgins (a ddaeth yn Ymddiriedolaeth Terrence Higgins), yr elusen AIDS gyntaf yn y DU.

1984 – yr AS Chris Smith yn cael ei ethol ac felly ef yw gwleidydd cyfunrywiol cyntaf yn senedd y DU.

Lansio Lesbians and Gays Support the Miners, ymgyrch o gefnogaeth LHDT+ ar gyfer gweithwyr sy'n streicio yn ystod streic y glowyr yn 1984 a 1985. Mae'r ffilm *Pride* yn dweud eu hanes.

1988 – Adran 28 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 yn dod i rym fel gwelliant i Ddeddf Llywodraeth Leol y Deyrnas Unedig 1986, ar 24 Mai 1988. Roedd yn nodi na fyddai awdurdod lleol "yn hyrwyddo cyfunrywioldeb yn fwriadol nac yn cyhoeddi deunydd gyda'r bwriad o hyrwyddo cyfunrywioldeb" na "hyrwyddo addysgu mewn unrhyw ysgol o dan eu gofal y dylid derbyn cyfunrywioldeb fel perthynas deuluol honedig". Ni wnaed yr un erlyniad o dan Adran 28 gan nad oedd neb yn gwybod beth oedd ystyr 'hyrwyddo' a beth a olygwyd gan 'perthynas deuluol honedig'.

16 am y tro cyntaf ac felly symudodd y trafodaethau at a ddylai'r oedran fod yn 18 oed. Yn ôl Neil Kinnock, a gafodd ei eni yn Nhredegar, roedd cael un oed cysyniad yn gwneud synnwyr, gan fod y rhan fwyaf o heterorywiolion yn gwybod beth yw eu cyfeiriadaeth erbyn iddynt droi'n 16 oed, pam na ddylai cyfunrywiolion? Roedd wedi bod, fel tad, yn poeni cymaint am y posibilrwydd y byddai ei fab yn cael rhyw heterorywiol yn 16 ag yr oedd am ei ferch: "Rwy'n gobeithio, pe byddai un o fy mhlant wedi bod â chyfeiriadedd cyfunrywiol, y byddwn wedi gallu dangos cariad a dealltwriaeth fel eu rhiant, yn yr un ffordd ag y mae nifer o rieni yn y wlad yn ei wneud yn barod. Ni chefais y prawf yma, ac i fod yn gwbl onest, rwy'n ddiolchgar," cyfaddefodd - gan fod pobl gyfunrywiol yn lleiafrif, ac yn cael eu hystyried yn rhai ynysig, heb blant, ac roeddent yn wynebu cyhuddiadau troseddol, hyd yn oed yn 16 oed. Yn y diwedd, canlyniad y bleidlais oedd 427 i 162 dros 18 oed, mwyafrif llethol o 265. Pleidleisiodd y rhan fwyaf o Aelodau Seneddol Cymru o blaid.

Ffynhonnell: *The Herald*, *Yr Alban*, 22 Chwefror 1994

1994

Oed caniatâd

Ym mis Chwefror 1994, cyfarfu Aelodau Seneddol i drafod gostwng oed cydsyniad i ddynion cyfunrywiol o 21 i 16 yn unol â'r oed ar gyfer heterorywiolion. Dyma'r tro cyntaf mewn dros chwarter canrif i oed cydsynio i gyfunrywiolion gael ei drafod gan Dŷ'r Cyffredin. Yng nghanol bloeddio yn Nŷ'r Cyffredin, a oedd yn orlawn, gwrthododd ASau ymgais i ostwng yr oed i

21AIN GANRIF

2000 - Llywodraeth Lafur y DU yn rhoi'r gorau i wahardd cyfunrywolion o'r lluoedd arfog ar ôl i Lys Hawliau Dynol Ewrop farnu fod hyn yn anghyfreithlon.

Mae'r llywodraeth hefyd yn cyflwyno deddfwriaeth i ddiddymu Adran 28 yng Nghymru a Lloegr - mae ASau Ceidwadol yn gwrthwynebu'r cam. Mae'r mesur yn cael ei drechu gan esgobion a Cheidwadwyr yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Diddymu Cymal 2a (Adran 28) o Ddeddf Llywodraeth Leol ym mis Hydref er ei bod parhau yng Nghymru a Lloegr.

gwaith nad yw'n gysylltiedig â'r Eglwys, meddai'r esgobaeth heddiw.

Ymdriniwyd â'r stori hon yn helaeth yn y wasg. Ffynhonnell: *Barry & District News*, 28 Hydref 2002

Llofruddiaeth greulon

Roedd tad i wyth o blant o Went yn bwriadu dychwelyd at ei gariad heterorywiol a'i fab bach pan gafodd ei lofruddio'n greulon gan ei gariad hoyw. Cafodd Mark Collins ei garcharu am oes yn llys y goron Caerdydd am lofruddio Paul Scott yn y cartref roedden nhw'n ei rannu yn Ifton Place, Llys-wry. Roedd Paul yn gymnastwr brwd pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Llysweri ac roedd wedi cynrychioli Cymru.

Ffynhonnell: *Barry & District News*, 23 Rhagfyr 2002

2001

Dyn o Went yn cyfaddef clwyfo cyn-gariad hoyw

Cafodd dyn o Went ei brofi'n ddieuog o geisio llofruddio ei gyn-gariad hoyw drwy ei drywanu yn ei stumog. Plediodd Clifford Morgan yn euog i glwyfo Paul De Warne gyda'r bwriad o wneud niwed corfforol difrifol.

Ffynhonnell: *Barry & District News*, 10 Mai 2001

Cyfunrywolion yn gwawdio

deddfau Duw, meddai'r pennaeth

Roedd prifathro yn wynebu galwadau i'w wahardd ddoe ar ôl dweud wrth ddisgyblion yn y gwasanaeth boreol bod cyfunrywolion, ysgariadau a mamau di-briod yn "diystyru deddfau Duw". Dywedodd Bill Beales o Ysgol Uwchradd Cwmcarn ger Caerffili, De Cymru, fod pobl a dorrodd y rheolau ar gyfer "byw y ffordd gywir" yn y byd sydd ohoni o ran cywirdeb gwleidyddol, wedi dianc rhag beirniadaeth. "Trwy haen denau cywirdeb gwleidyddol, mae system praeseptau, credoau a gwerthoedd ffydd Cristnogol yn

2002

Nid yw offeiriad hoyw o Gwent a fabwysiadodd fachgen yn ei ardddegau gyda'i bartner wedi gweinyddu gwasanaethau ers "sawl blwyddyn", meddai llefarydd ar ran yr Eglwys yng Nghymru heddiw. Deallir bod y cwpwl, sy'n byw yn esgobaeth Mynwy wedi bod gyda'i gilydd ers 22 o flynyddoedd. Bu iddynt fabwysiadu'r bachgen 15 oed, sydd ag anawsterau emosiynol a dysgu difrifol, bythefnos yn ôl, ar ôl gofalu amdano am ddeng mlynedd. Mae'r offeiriad hoyw bellach yn cael ei gyflogi mewn

cael eu herydu gan ddewiniaid delwedd a gwleidyddion," meddai. "Maent yn fwy awyddus i ennill pleidleisiau na sefyll yn gadarn dros egwyddorion yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir.

Beirniadodd arweinydd cyngor Caerffili, Lindsay Whittle, yr araith a roddwyd yn yr ysgol, oedd â 820 o ddisgyblion, a'i galw'n un "cwbl amhriodol". Dywedodd y dylai Mr Beales gael ei wahardd tra'n aros am ymchwiliad llawn. "Faint o ddisgyblion wnaeth adael gwasanaeth yn teimlo'n ddiwerth am fod eu rhieni wedi ysgaru, oherwydd eu bod yn byw gyda rhiant sengl neu o bosib yn gyfunrywiol?" meddai. "Pan fydd plant o gefndiroedd penodol yn cael eu trin yn wahanol gallai annog bwlio." Dywedodd Mr Whittle ei fod wedi ysgrifennu at fwrdd llywodraethwyr yr ysgol yn awgrymu fod Mr Beales yn cael ei wahardd o'i waith. Gall awdurdodau lleol roi cyngor ar waharddiadau ond y llywodraethwyr sy'n gwneud y penderfyniad yn y pendraw.

Dywedodd Denver Preece, cadeirydd y bwrdd, fod gan Mr Beale "gefnogaeth y llywodraethwyr 100 y cant". Dywedodd yntau: "Nid wyf yn gwneud unrhyw sylw arall, dim o gwbl, nes i mi siarad eto â'm llywodraethwyr."



Dywedodd Geraint Davies, o Gymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau: "Mae'n rhaid i ni ddysgu ein plant na ddylai neb yn y gymdeithas gael ei wahaniaethu oherwydd cefndir."


Dyweddodd Mr Beales ddoe nad oedd ei araith, o'r enw "Rhyddid Paradocsaid", yn ymwneud ag ymosod ar unigolion. Roedd am dynnu sylw at y cyhuddiadau annheg o "ragfarn a gwahaniaethu" oedd yn wynebu Cristnogion a oedd yn amddiffyn egwyddorion eu crefydd.

Ffynhonnell: *The Telegraph*, 4 June 2002

2003 - Adran 28, oedd yn gwahardd cyngorau ac ysgolion rhag hybu cyfunrywioldeb yn fwriadol, yn cael ei diddymu yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol yn y gwaith.

2003

Roy Jenkins (1920–2003) Gwleidydd Prydeinig a fu'n allweddol yn 1967 o ran gwahaniaethu rhannol. Ganed ef yn Abersychan, Sir Fynwy daeth yn Farwn



Jenkins o Hillhead, o Bont-y-pŵl yn Sir Gwent. Credir ei fod yn ddeurywiol.

Ff

**arwelio â brenhines drag
gyda blodau**

Cafwyd hyd i gorff Jason
Massiey (32), alias Lady
Ding, o John Street,
Markham, Caerffili, yn

arnofio ym mhwl Pen-y-Fan, Manmoel,
Casnewydd. Credid ei fod wedi bod yn dioddef
o iselder. Ei chyd-artist drag Miss Kitty (27) o
Riverside, Caerdydd, oedd partner llwyfan
Jason yn eu sioe yn Kings Cross, Caerdydd.
"Jason oedd fy ffrind gorau a dydw i ddim yn
credu y gall unrhyw beth ddisodli gweithio
gydag e - ac fel ffrind roeddwn i'n ei garu'n
annwyl." Dywedodd Chris Marshall, rheolwr
tafarn y King's Cross yng Nghaerdydd: "Mae'n
debyg mai Jason oedd y frenhines drag fwyaf
ffraeth a mwyaf talentog i mi ei gweld erioed.
Byddai wedi bod yn hynod lwyddiannus pe
byddai wedi cael y cyfle, felly mae'n golled
fawr. Rhoddodd ffrindiau deyrnged ar ffurf
blodau i Massiey ym Mardi Gras Caerdydd.

Ffynhonnell: *Barry & District News*, 4
Awst 2003

P

**artneriaid hoyw yn rhuthro i
gofrestru yn neuaddau'r dref**

"Mae mwy a mwy o gyplau hoyw
yn manteisio ar yr hawl
gyfreithiol newydd i gofrestru eu
perthynas. Mae seremonïau cofrestru eisoes
yn cael eu trefnu gan gynghorau lleol yn
Abertawe, Llundain, Leeds, Bournemouth,
Manceinion, Lerpwl, Brighton a Hove,
Caerfaddon, Dyfnaint a Gwlad yr Haf - ac
maent ar fin dechrau yng Nghaerffili, De
Cymru... Dydyn nhw ddim eto'n ymgorffori
unrhyw hawliau cyfreithiol i'r cwpl, er eu bod
yn annog cydraddoldeb ymhlith cyflogwyr,
awdurdodau tai, swyddogion mewnfudo ac
eraill sydd â grym."

Ffynhonnell: *The Observer*, 9 Chwefror 2003

2004

Cafodd Taye Lee Lopez ei bleidleisio'n ddyn
hoyw mwyaf priodadwy Cymru - gan ennill ei
le yn rownd derfynol cystadleuaeth Mr Gay
UK. Ond mae'r llanc 21 oed, a gafodd ei fagu
yn Swffryd, yn dweud nad oedd ganddo neb i
siarad â hwy am y ffaith ei fod yn hoyw.
Dywedodd y cyn-fyfyriwr Ysgol Uwchradd St
Alban: "Yn 11 oed roeddwn i'n gwybod bod
rhywbeth ddim cweit yn iawn ac roeddwn i'n
gwybod nad oedd yn rhywbeth y byddai fy
nghyfoedion na'm teulu yn ei ddeall.
"Roeddwn i wedi cael fy nysgu bob amser fod
cyfunrywioldeb yn anghywir ac roeddwn i'n
teimlo'n ffiaidd ac â chywilydd a doeddwn i
ddim eisiau i neb wybod."

Roedd y pwysau o fethu siarad am ei
deimladau yn gyrru Taye i ymbellhau oddi
wrth ei deulu a'i ffrindiau, i'r fath raddau,
cymerodd dri gorddos pan oedd e rhwng 14
ac 16 oed. Graddiodd Taye, o Athrofa Prifysgol
Cymru, Caerdydd, gyda gradd gwyddor
chwaraeon, "Os dw i'n ennill y teitl, bydd
gennyf siawns o gael fy noddi i sefydlu
prosiect cefnogi i helpu pobl hoyw yn y
Cymoedd."

Ffynhonnell: *Barry & District News*, 2
Gorffennaf 2004

2004 – Mae Deddf Partneriaeth Sifil 2004 yn cael ei phasio gan y Llywodraeth Lafur, gan roi'r un hawliau a chyfrifoldebau i gyplau o'r un rhyw â chyplau heterorywiol priod yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru. Mae'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004 yn cael ei phasio gan y Llywodraeth Lafur. Mae'r Ddeddf yn rhoi cydnabyddiaeth gyfreithiol i bobl drawsrywiol fel aelodau o'r rhyw sy'n briodol i'w rhyw (gwrywaidd neu fenywaidd) gan ganiatáu iddynt gaffael tystysgrif geni newydd, gan roi cydnabyddiaeth lawn iddynt o'u rhyw newydd yn y gyfraith at bob diben, gan gynnwys priodas.

Gdroddiadau o droseddau homoffobig yn dyblu

waeddodd y pennawd fod adroddiadau o droseddau homoffobig yng Ngwent wedi mwy na dyblu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn ôl yr Heddlu. Ond roedd y gwir bellach yn rhyddiaith. Rhwng 2002 a 2003 cofnodwyd 33 o droseddau, ond mewn 12 mis roedd hynny wedi cynyddu i 71.

Mae menter True Vision yn annog dioddefwyr troseddau casineb i gysylltu â'r heddlu, yn ddienw pe byddai'n well ganddynt hynny, ynglŷn ag ymosodiadau arnynt. Gallai dioddefwyr ddefnyddio trydydd parti i ddweud wrth yr heddlu am ddigwyddiadau pe bydden nhw'n dymuno. Dywedodd Catherine Phelps, swyddog amrywiaeth Heddlu Gwent: "Mae yna stigma hanesyddol yn perthyn i fod yn hoyw ond rydyn ni'n cymryd digwyddiadau homoffobig o ddifrif. Mae'r cynnydd mewn

troseddau a adroddwyd yn dangos bod gan y gymuned fwy o hyder y byddwn yn ymchwilio i faterion o'r fath."

Dywedodd y Prif Gwnstabl Mike Tonge: "Rydym yn ymwybodol nad oes digon o sôn am droseddau casineb ac rydym am annog pobl i ddod ymlaen i'n helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r lefel gwirioneddol o ran digwyddiadau yng Ngwent." Dywedodd fod yr heddlu'n awyddus i glywed gan ddioddefwyr troseddau casineb yn ogystal â'r tystion.

Ffynhonnell: *Barry & District News*, 14 Mai 2004

Heddlu Gwent yn cefnogi Mardi Gras.

"Bydd Heddlu GWENT yn chwilio am recriwtiaid newydd yng Nghaerdydd y penwythnos yma wrth i ddegau o filoedd o bobl fynychu Mardi Gras, Lesbiaid a Hoywon Cymru. Bydd gan y llusondin recriwtio yn y farchnad ar Cooper's Field, ac fe fydd swyddogion yn cynnig gwybodaeth ynglŷn ag ymuno."

Ffynhonnell: *South Wales Argus*, 3 Medi 2004

2006

Mwy na 70 o bartneriaethau sifil yng Ngwent

Roedd Alan Haines a Darran Richards ymhlith y cyplau cyntaf yng Ngwent i "glymu'r cwlwm" mewn seremoni partneriaeth sifil.

Daeth Deddf Partneriaeth Sifil 2004 i rym yn 2005 a oedd yn caniatáu i bartneriaid hoyw wneud eu perthynas yn swyddogol, a rhoi, am y tro cyntaf, yr un hawliau â chyplau priod heterorywiol iddynt.

Gwnaeth Alan a Darran eu perthynas yn swyddogol, ar ôl 20 mlynedd gyda'i gilydd, yn Swyddfa Gofrestru Casnewydd ar 21 Rhagfyr y llynedd.

Daeth pobl atynt i'w llongyfarch a chawsant lawer o gefnogaeth a dymuniadau da, gan fod teulu, ffrindiau a chydweithwyr yn awyddus i longyfarch y pâr.

Ac nid y rhai agosaf at y pâr yn unig oedd yn falch o glywed y newyddion.

"Es i at y doctor ac fe ysgydodd fy llaw. Roedd e'n neis iawn," meddai Mr Haines, sy'n nyrs mewn ysbyty, a dywedodd fod cael statws cyfreithiol wedi gwneud iddyn nhw deimlo'n fwy diogel.

FFEITHIAU

Mae ffigyrau diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod dros 15,000 o bartneriaethau sifil wedi eu ffurfio yn y DU ers iddynt gael eu cyflwyno y llynedd.

Rhwng mis Rhagfyr a diwedd mis Medi roedd 15,672 o bartneriaethau o'r un rhyw - 537 yng Nghymru, 14,084 yn Lloegr, 942 yn yr Alban a 109 yng Ngogledd Iwerddon. Yr ardal fwyaf poblogaidd oedd Llundain a De Ddwyrain Lloegr, lle ffurfiwyd chwarter o'r holl bartneriaethau.

Ffynhonnell: *Barry & District News*, 4 Rhagfyr 2006

2007

40 mlynedd ers i gyfunrywioldeb gael ei ddadgrimalaiddio yn rhannol siaradodd nifer o ddynion am eu profiadau. Dywedodd Colin Davies o Gaerffili bod "queer-bashing" yn rhywbeth a oedd yn digwydd yn rheolaidd wrth iddo dyfu i fyny ac o ganlyniad roedd yn ei chael hi'n amhosibl "dod allan".

Dywedodd ei bod yn haws ac yn fwy diogel i fod yn "un o'r bechgyn" na bod yn onest am ei

rywioldeb, a'r unig le y gallai wir fod yn hoyw yn ei 20au oedd mewn clwb aelodau preifat cudd yng Nghaerdydd o'r enw Syrs.

"Roedd yn rhaid i chi fod yn ofalus iawn o ran yr hyn yr oeddech yn ei wneud phwy y byddech yn siarad â hwy" Doedd dim modd i chi fod yn chi eich hun" meddai Mr Davies.

"Roedd wastad jôcs am hoywon, poofs a ffagots ac roedd lot o bobl yn ei weld yn ffiaidd. Roedd pobl yn eich galw'n *freak*, yn dweud nad oedd e'n naturiol, nad oedd e i fod."

Ni wnaeth neb erioed ymosod ar Mr Davies am ei fod yn cadw'n dawel am ei rywioldeb. Priododd fenyw, hyd yn oed, gan iddo syrthio mewn cariad â hi a chawsant ddau fab gyda'i gilydd cyn iddynt wahanu ac aeth yn ôl i'w ffordd hoyw o fyw.

"Rwy'n credu i mi deimlo dan bwysau i gael perthynas gyda menywod yn ystod y dyddiau hynny," meddai

"Erbyn heddiw mae pethau mor agored a hawdd - dyw pobl ddim yn poeni ac mae'n hyfryd. Mae ganddynt gyfraith sy'n eu cefnogi hefyd.

"Dwi'n falch bod pobl yn gallu bod yn nhw eu hunain a ddim yn gorfod aros yn y cysgod fel ni pan oeddem ni'n blant."

Ffynhonnell: *BBC*, 27 Gorffennaf 2007

aethu pan yn Hoyw

Roedd y Parchedig Martin Reynolds, clerigwr hoyw yn yr eglwys Anglicanaidd yng Nghymru a oedd wedi bod mewn partneriaeth am 27 mlynedd gyda Chris, triniwr gwallt, wedi bod yn maethu bachgen ag anawsterau ymddygiad difrifol ers pymtheng mlynedd. Y cwpl hoyw cyntaf yng

Nghymru i gael caniatâd i faethu bachgen gan Barnardo's. Gofynnwyd iddynt faethu'r bachgen am y tro cyntaf pan oedd yn bedair oed ac ni allai Barnardo's ddod o hyd i gartref arall iddo gan ei fod mor aflonyddgar.

Yn ddiweddar, roedd Reynolds wedi rhoi cynnig ar arbrawf. Ffoniodd asiantaeth Gatholig ac, gan gymeryd arno ei fod yn anffyddiwr, gofynnodd a allai gael ei ystyried ar gyfer maethu. Cafodd wybod na fyddai hynny'n broblem. Yn nes ymlaen fe ffoniodd yn ôl a chyfaddef ei fod yn hoyw a chafodd ei wrthod.

Yn 2007 fe ysgrifennodd Rowan Williams, Archesgob Caergaint, at y llywodraeth yn mynnu na ddylai cydwybod asiantaethau mabwysiadu crefyddol gael ei herio drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried cyplau hoyw fel mabwysiadwyr. Yn ddig, dywedodd y Parch Reynolds wrth y wasg fod yr Archesgob yn arfer byw drws nesaf iddynt a fod y bachgen yn arfer chwarae gyda'i blant. 'Mae'n gwybod y gall cyplau hoyw ddarparu cartref cariadus i blant difreintiedig sydd mewn perygl,' meddai Reynolds.

Roedd llawer wedi ei ysgrifennu ar y stori hon yn y wasg.

Ffynhonnell: *The Guardian*, 25 Ionawr 2007

2008

Angladd Leo Abse

Bydd angladd cyn-Aelod Seneddol Pont-y-pŵl a Thorfaen, Leo Abse, yn cael ei gynnal ddydd Gwener, 29 Awst. Bu farw Mr Abse, 91, yn heddychlun yn Ysbyty Charing Cross yn Llundain. Bydd ei angladd yn cael ei gynnal am 11am yn Eglwys Sant Gabriels, Cwmbrân, gyda'r gwasanaeth yn cael ei arwain gan y Parchedig Michael Phillips a Rabbi Dr Sidney Brichto ac yna yn amlosgfa yn amlosgfa Gwent.

Ffynhonnell: *Newyddion*, y Barri a'r Cylch, 22 Awst 2008

2008 – Angela Eagle yw'r AS benywaidd cyntaf i fynd i bartneriaeth sifil (gyda'i phartner Maria Exall)

2009 – Seren rygbi Cymru, Gareth Thomas, yw'r athletwr gwrywaidd proffesiynol lefel uchaf adnabyddus cyntaf mewn chwaraeon tîm i ddod allan tra'n parhau i fod yn weithgar mewn chwaraeon proffesiynol.

2009

Heddlu Gwent a heddlu Gogledd Cymru oedd y sefydliadau cyhoeddus cyntaf i chwifio baner yr enfys yng Nghymru.

Swyddog Hoyw yng Ngwent yn rhoi cipolwg ar fywyd yr heddlu

Dangosodd Heddlu GWENT eu cefnogaeth i fis hanes Pobl Lesbaid, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol (LHDT), drwy godi baner yr enfys ym mhencadlys yr heddlu. Dywedodd PCSO Dale Morris bod mis ymwybyddiaeth o gydraddoldeb wedi creu "argraff fawr" ar bobl hoyw a deurywiol sy'n gweithio o fewn y llu.

Roedd y swyddog Maindee yn siarad ar ddechrau mis hanes Pobl Lesbaid, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol (LHDT), sy'n cael ei gynnal bob mis Chwefror i ddathlu bywydau a chyflawniadau'r gymuned LHDT.

Roedd y PCSO Morris allan pan ymunodd â'r llu bedair blynedd yn ôl ac mae hefyd yn gadeirydd Rhwydwaith Cymorth Hoyw Heddlu Gwent (GPGSN), a sefydlwyd yn 2002.

Mae gan GPGSN dros 20 o aelodau o'i gymharu â dim ond tri neu bedwar ddwy flynedd yn ôl, ac mae hefyd yn cynnig cefnogaeth i bobl nad ydynt yn hoyw ond a allai fod â pherthnasau hoyw ac sydd eisiau gwybodaeth.

Dyweddodd PCSO Morris mai dim ond un problem y mae wedi dod ar ei thraws tra'n gweithio i'r Heddlu, sef rhywfaint o gam-drin geiriol gan gydweithiwr: "Dyna wnaeth fy annog i ymuno â'r rhwydwaith staff, i gael fy hyder ac i fynd ati i herio pobl pe bawn i'n dod ar draws hyn eto. Nid wyf wedi dod ar draws hyn ers hynny."

Dyweddodd y deliwyd â'r person dan sylw yn y modd priodol, ac ychwanegodd: "Rwyf bob amser wedi cael y gefnogaeth, nid yn unig gan gydweithwyr, ond gan ffrindiau ac aelodau o staff uwch. Dwi wedi sylwi ar newid mawr ers i mi fod yn rhan o'r rhwydwaith."

Cafodd baner yr enfys ei chwifio y tu allan i'r pencadlys yng Nghroesyceiliog i nodi'r mis, y pumed flwyddyn i'r faner gael ei chodi gan Heddlu Gwent.

Yn ôl PCSO Morris, sy'n byw yng Nghasnewydd ac sydd â phartner o fewn yr heddlu, mae agweddau'r heddlu tuag at bobl o fewn y gymuned LGBT wedi newid yn "ddramatig" dros y deng mlynedd diwethaf.

Ychwanegodd bod mentrau fel hyn nid yn unig yn cynnig cefnogaeth i bobl sy'n gweithio yn y llu, ond yn annog pobl hoyw i roi gwybod am ymosodiadau homoffobig gan nad ydyn nhw, o bosib, wedi gwneud hynny o'r blaen am eu bod ofn cael eu hanwybyddu neu ofn i bobl ddod i wybod eu bod yn hoyw.

Gall pobl nawr roi gwybod am y mathau yma o droseddau yn ddienw.

Dyweddodd y Prif Gwnstabl Mick Giannasi: "Mae chwifio'r faner [enfys] yn dangos, mewn ffordd fach ond gweladwy, ein cefnogaeth a'n hymrwymiad i'n gweithlu amrywiol. Y gobaith yw creu amgylchedd y mae'r staff i gyd yn teimlo'n gyfforddus ynddi ac yn teimlo eu bod

yn cael eu gwerthfawrogi, amgylchedd ble mae pawb yn cydweithio tuag at greu gwasanaeth heddlu mwy diogel ac amrywiol."

Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a adawyd ar y wefan yn rhai gwahaniaethol, gan gynnwys:

Ysgrifennodd mintex, Cwmbrân, 'beth nesaf?. pam fod rhaid i'r frigâd hoyw hedfan baneri a gwneud sŵn mor fawr ynglŷn â beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol? Fy hun dydw i ddim yn hoyw ond fyddwn i ddim eisiau mynd o gwmpas a chael baneri'n hedfan i ddweud wrth bawb. Pam mae hoywon yn teimlo'r angen i hysbysebu'n gyson eu bod yn hoyw. PAM??????????'

Atebodd Clare1984, Casnewydd, 'dydw i ddim yn hoyw, ond dyw'r rhan fwyaf o'r "frigâd hoyw" fel yr ydych chi'n eu galw, ddim yn mynd o gwmpas yn taflu eu rhywioldeb yn wynebau pobl, ond y rheswm y mae rhai pobl hoyw a bi yn hoffi dangos eu rhywioldeb yw am ei bod wedi cymryd amser hir iawn i'r lleiafrif yma o fewn ein cymdeithas ddod yn gyfartal â'r mwyafrif. Dwi ddim yn poeni beth yw hil, rhyw, rhywioldeb, crefydd pobl cyn belled â'u bod nhw'n fy nhrin i gyda'r un parch a goddefgarwch ag ydw i'n ei roi iddyn nhw. Amrywiaeth yw sbeis bywyd, a bwllo yw pigo ar rywun oherwydd eu hil, rhywioldeb neu grefydd yn fy marn i.

Ysgrifennodd vic flange, 'Cytuno.. Dwi ddim yn chwifio baner syth tu allan i fy siop ... Dyw'r hyn y mae'n ei wneud yn yr ystafell wely, y parc neu'r clwb twnnel yn poeni dim arnai. Fe fyddai'n well gen i petai'r heddlu'n chwifio baner pan fyddant yn glanhau strydoedd Casnewydd...

Ffynhonnell: *Barry & District News*, 11 Chwefror 2009

2010 – Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn lesbiaid a dynion hoyw wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau.

2010

B*eth am roi stop ar fwlio*

Daeth pobl ifanc o Flaenau Gwent ynghyd i daclo problemau bwlio yn y fwrdeistref. Fe wnaeth dros 135 o bobl ifanc fynychu'r diwrnod ymwybyddiaeth gwrth-fwlio yng Nghanolfan Hamdden Glyn Ebwy. Nod diwrnod y gweithdai, a drefnwyd gan grŵp gwrth-fwlio Blaenau Gwent, Get Real About Bullying (GRAB), oedd wynebu materion, sy'n aml yn dabw, ymhlith pobl ifanc megis rhywioldeb ac anabledd.

Ffynhonnell: Gwent Gazette, 11 Tachwedd 2010

H*eddlu Gwent yn penodi swyddogion cyswllt hoyw*

Am y tro cyntaf yng Nghymru, bydd pobl sydd wedi dioddef trosedd casineb yng Ngwent, oherwydd eu bod yn adnabod eu hunain fel Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol neu Drawsryweddol nawr yn cael cymorth a chynghor arbenigol gan swyddogion heddlu a staff sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig.

Mae Swyddogion Cyswllt LGBT wedi'u hyfforddi'n arbennig i roi cymorth ychwanegol i ddioddefwyr trwy gydol y broses ymchwiliol. Y gobaith yw y bydd yr adnodd ychwanegol

yma sydd ar gael i ddioddefwyr yn annog y rhai sydd wedi wynebu trosedd casineb i gael mwy o hyder wrth roi gwybod am y drosedd.

Dangosodd arolwg a gynhaliwyd gan Heddlu Gwent yn y Mardi Gras (a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Medi) fod 96 % o'r 46 o bobl a holwyd yn dweud y byddai cael Swyddog Cyswllt LGBT yn syniad da a dywedodd 42 o'r bobl hynny a holwyd y byddai cael Swyddog Cyswllt LGBT yn eu hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau.

"Yr amcangyfrif yw bod un o bob 12 o bobl yng Ngwent yn ystyried eu hunain yn Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol neu Drawsrywiol. Mae hyn yn nifer sylweddol o bobl o fewn ardal ein llu. Rydym, nid yn unig eisiau darparu'r gwasanaeth gorau i'r nifer fwyaf, yr hyn sy'n bwysig yw gallu cynrychioli a rhoi'r gefnogaeth orau bosib i bob un aelod o'r gymuned. Rydym yn gobeithio y bydd cyflwyno swyddogion cyswllt LGBT yn annog aelodau o'r gymuned i roi gwybod am droseddau casineb nad ydynt, yn draddodiadol, yn cael eu hadrodd. Os gallwn annog mwy o bobl i adrodd, bydd hyn yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o droseddau casineb ac i ba raddau y mae pobl yn dioddef ond, yn fwy na hyn, bydd yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r broblem yn well"

Ffynhonnell: *South Wales Argus*, 6 Rhagfyr 2010

2011

S*wyddogion cyswllt LGBT Heddlu Gwent yn cymryd rhan mewn DVD i ddweud wrth bobl ifanc "Mae'n gwella heddiw"*

Mae pum swyddog o Heddlu Gwent ac aelodau o staff wedi ffilmio DVD fer i ledaenu'r neges i bobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGB&T) sef "It does get better and we can make it happen"

Mae'r pum swyddog - sydd i gyd yn swyddogion cyswllt LGBT - wedi cael eu ffilmio'n siarad am eu profiadau personol eu hunain, yn ogystal ag amlinellu gwasanaeth Swyddog Cyswllt LGBT i ddioddefwyr troseddau casineb homoffobig, deuffobig a thrawsffobig. Nod cyffredinol y ffilm fer yw rhoi neges gadarnhaol i bobl ifanc LGBT a allai fod yn wynebu bwlio neu droseddau casineb, a'u sicrhau y bydd yr heddlu yno i'w cefnogi. Mae'r ffilm i'w defnyddio fel rhan o ymgyrch feiral ehangach Stonewall Cymru.

Dangoswyd y ffilm am y tro cyntaf mewn digwyddiad ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd, Campws Caerllion, fel rhan o fis Hanes LGBT. Mynychodd Heddlu Gwent sgwrs â phobl ifanc yn ogystal â chynrychiolwyr o asiantaethau partner, gan gynnwys Cymorth i Ddioddefwyr, Gwasanaeth Erlyn y Goron Gwent, a THT (Ymddiriedolaeth Terence Higgins).

Gellir gweld y ffilm ar

<https://www.youtube.com/watch?app=desktop&v=mgeg-YthHwA>

Dyweddodd y Dirprwy Brif Gwnstabl Jeff Farrar, Heddlu Gwent: "Rydym yn falch mai ni yw'r llw cyntaf yng Nghymru i gyflwyno swyddogion cyswllt LGBT, ac ers i'r gwasanaeth gael ei gyflwyno mae ein swyddogion wedi delio ag wyth achos, gyda llawer ohonynt yn dal i dderbyn cefnogaeth a chynghor parhaus wrth i'r broses ymchwiliol barhau. Mae'r adborth rydyn ni wedi'i gael gan aelodau'r cyhoedd wedi bod yn gadarnhaol iawn yn wir. Mae'r ffilm yn ffordd arall yr ydym ni'n gobeithio estyn allan at bobl ifanc sydd efallai'n teimlo'n unig. Rydyn ni wir eisiau iddyn nhw wybod fod pethau'n gwella heddiw ac y gallwn ni wneud i hyn ddigwydd."

Dyweddodd Andrew White, Cyfarwyddwr Stonewall Cymru "Mae'r ffilm hon yn dangos swyddogion balch fel rhan o lu balch sy'n gwneud gwaith gwyb. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn sbarduno gwelliant pellach yng Ngwent ac y bydd yn ysbrydoliaeth i bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn y sir."

Julie Baker, Trawsrywiol Cymru (Cadeirydd a Chyd-Sylfaenydd) "Mae'r boblogaeth drawsryweddol yn un sy'n tyfu ac yn un, yn draddodiadol, sydd heb roi gwybod am droseddau casineb oherwydd diffyg hyder yn yr heddlu. Rydym rai blynyddoedd y tu ôl i'r cymunedau LGB, a bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i ddal i fyny. Mae'n bwysig bod pawb yn adrodd am droseddau casineb, dim ots os yw'r drosedd yn ychydig o eiriau neu rhywbeth mwy difrifol'.

Ffynhonnell: *South Wales Argus*, 25 Chwefror 2010

2012

Cyfeiriadaeth rhywiol

Nid oes ystadegau cywir i'w cael ar lefel awdurdod lleol ar gyfeiriadedd rhywiol. Fodd bynnag, mae'r arolwg integredig i Gartrefi yn cynnwys data ar hunaniaeth rywiol yng Nghymru am y cyfnod rhwng Ebrill 2010 a Mawrth 2011. Mae'r arolwg hwn yn dangos bod 94.2% yn ystyried eu hun yn heterorywiol neu'n syth, 1.2% yn hoyw/lesbiaidd neu ddeurywiol, a 0.3% fel 'arall'. Ni wnaeth 4.3% o bobl ateb y cwestiwn hwn (1.4% yn syml ddim yn ymateb a doedd 2.9% ddim yn gwybod neu'n gwrthod ateb y cwestiwn, o'i gymharu â 0.9% a 2.3% y llynedd). Mae'r canlyniadau'n debyg i'r canlyniadau ar gyfer y DU er bod y gyfradd "heb ymateb" ar gyfer Cymru yn uwch nag ar gyfer y DU.

- 65 % reported experiencing homophobic bullying at school. For faith schools the figure was 75%
- Of those who reported being bullied, 92% reported verbal abuse, 41% cyber bullying, 41% physical abuse, 30% vandalism and theft of property, and 17% death threats
- Over half said they had heard homophobic remarks from teachers or other school staff
- The school environment was described as a place where homophobic remarks were commonplace
- Employees who are disabled, gay, lesbian or bisexual are more than twice as likely as others to report that they have experienced discrimination at work
- There is some evidence that bisexual people are much less likely to disclose their sexual identity to work colleagues than gays or lesbians
- Young lesbian and gay people are more likely to attempt suicide
- Gay, lesbian and bisexual people may be more likely to move from socially conservative areas where they grew up (rural areas, housing estates, the Valleys) to live in towns and cities

Cymru fel ag y mae - Anghydraddoldeb Cyfeiriadedd Rhywiol

Mewn arolwg a gynhaliwyd yn 2006, gofynnwyd i bobl ifanc sy'n hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol gwblhau arolwg am eu profiadau yn yr ysgol. Derbyniwyd tua 1,145 o ymatebion gan ddisgyblion ysgolion uwchradd.

Priodas a Phartneriaeth Sifil

Ar gyfer pob 40 priodas yn y DU mae un bartneriaeth sifil. Yng Nghymru, roedd 268 o bartneriaethau sifil yn ystod 2010. Roedd y lefelau uchaf yng Nghymru yn 2006 - y flwyddyn yn dilyn y newidiadau i'r gyfraith, pan roedd 560 o bartneriaethau sifil.

Ym Mlaenau Gwent rhwng 2011 a Mawrth 2012 roedd 97 o briodasau a 2 bartneriaeth sifil.

Ailbennu rhywedd

Nid yw'r ystadegau ar ailbennu rhywedd ar lefel Blaenau Gwent ar gael. Fodd bynnag, mae'r Gymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth Rhywedd (GIREs) yn cynnig amcangyfrifon ar gyfer dysfforia rhywedd, sef y term meddygol am y cyflwr y mae person sydd wedi'i cael un rhyw (fel arfer ar enedigaeth ar sail eu rhyw), yn nodi eu bod yn perthyn i ryw arall, neu nad yw'n cydymffurfio â'r rôl rhywedd neu'r rôl y mae eu priod gymdeithas yn ei roi iddynt.

Mae GIREs yn amlinellu mai amcangyfrif isel ar gyfer y DU fyddai 8 o bobl i bob 100,000 ac amcangyfrif uchel fyddai 21 o bobl i bob 100,000. O ystyried hyn byddai

disgwyl i rhwng 5 a 14 o bobl ym Mlaenau Gwent fod â dysfforia rhywedd.

Ffynhonnell: *Asesiad Anghenion Strategol Blaenau Gwent*, 2012

2013



Gay Adoption UK is an online resource for prospective LGBT adopters in the United Kingdom. Gay Adoption UK.com aim is to provide information and services to prospective lesbian, gay, bisexual and transgender adopters based in the United Kingdom.



Blaenau Gwent Adoption Agencies

Same sex couple? Gay or lesbian? Civil Partnership or single? Want to adopt a baby? Looking to adopt a sibling group? Want to adopt older child?

Scroll down page to find Local Authority and Voluntary Adoption Agencies in Blaenau Gwent.

2014 – Daw priodas o'r un rhyw yn gyfreithlon yng Nghymru a Lloegr ar 29 Mawrth o dan y Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013.

2015

Ganwyd y gantores Gymreig anrhywiol Steve Strange (1959–2015) yn Nhrecelyn, Caerffili ac mae'n marw yn yr Aifft o drawiad ar y galon. Roedd yn arweinydd y grŵp synth-pop ton newydd Visage, sy'n fwyaf adnabyddus am eu sengl *Fade to Grey*, ac roedd yn un o'r ffigurau mwyaf dylanwadol y tu ôl i fudiad Rhamantaidd Newydd yr 1980au cynnar.

2016 - Hannah Blythyn, Jeremy Miles, ac Adam Price oedd aelodau agored hwyntaf Cynulliad Cymru.

2019

Yngyrch i godi arian ar gyfer y cerflun cyntaf o fenyw enwedig yng Nghasnewydd. Bydd y cerflun o Margaret Haig Mackworth, Is-iarlles Rhondda.

2021 – Owen J Hurcum oedd maer anneauaidd cyntaf y byd ac yr un ieuengaf erioed yng Nghymru i gael ei ethol yn faer Cyngor Dinas Bangor yng Ngwynedd, Cymru.

2022

Roeddwn yn cuddio fy mhartner i fyny'r grisiau

Mae'r Farwnes Debbie Wilcox yn cofio ei phrofiadau'n dysgu yn ystod cyfnod Adran 28 yn yr 80au a'r 90au, pan

waharddwyd hyrwyddo cyfunrywioldeb gan awdurdodau lleol.

'Merch a anwyd yn Rhondda oedd hi. Cafodd fagwraeth ddosbarth gweithiol, a hi oedd arweinydd benywaidd cyntaf Cyngor Casnewydd yn ôl yn 2016. Hi bellach yw llefarydd y fainc flaen ar ran Cymru yn Nhŷ'r Arglwyddi. Ond yn ystod ei chyfnod fel myfyriwr yn Ysgol Ramadeg y Merched Sir Porth o 1968 i 1975, buan iawn y sylweddolodd nad oedd hi'n debyg i'w myfyrwyr eraill.

O'r ysgol, dechreuodd ar ei thaith i ddysgu. Ar ôl gadael ysgol ddrama dechreuodd addysgu eraill yn y pwnc yn ne Llundain, cyn dychwelyd i Gasnewydd gyda chyn-bartner i fod yn nes at adref. Ond gan fod Adran 28 wedi'i chyflwyno, roedd yn golygu bod yn rhaid i Debbie wneud ei swydd fel person hoyw gan guddio ei rhywioldeb oddi wrth ei chydweithwyr.

"O fy nuw. Ar ôl bod yn Llundain am bum mlynedd lle roedd popeth mor agored am fod yn hoyw, i ddod nôl i dre fach yn y cymoedd. Blimey, roedd fel mynd yn ôl mewn amser," meddai.

"Er mae'n rhaid i mi ddweud, roedd y bobl yr oeddwn i'n gweithio â hwy yn hollol hyfryd, ond doedd dim ffordd y gallwn ddweud wrthyn nhw fy mod i'n hoyw. Felly, wyddoch chi, dechreuodd fy oes yn cuddio pan ddes i yn ôl i Gymru. Roeddwn i'n dysgu yn Ysgol Uwchradd Llanwern (gynt Hartridge High School). Roedd gen i gwpl o ffrindiau agos yn yr ysgol oedd yn gwybod fy mod i'n hoyw, ond doeddwn i erioed wedi siarad am y peth."

Ffynhonnell: *Wales Online*, 5 Medi 2022

Os ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi colli unrhyw beth y dylid ei gynnwys, rhowch wybod i ni.

Byddwn yn diweddarau'r llinell amser yn rheolaidd.

Diolch am ddarllen

Y staff a'r gwirfoddolwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Dim ond ychydig o uchafbwyntiau oedd y rhain o gyfeiriadedd rhywiol Gwent a hanes hunaniaeth o ran rhywedd.